# MESUR ARFAETHEDIG YNGHYLCH TEITHIO GAN DDYSGWYR (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) fel y'i cyflwynwyd gennyf ar 15 Ebrill 2008 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ieuan Wyn Jones AC
Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

19 Medi 2008

## CYNNWYS

RHAN 1

1. Disgrifiad
2. Cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH

7. Opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesu’r gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol

# 1. Disgrifiad

1.1 Bydd y Mesur fel y'i diwygiwyd yn unol â thrafodion Cyfnod 2 yn gwneud cyfraith ynghylch teithio gan ddisgyblion ysgol a phobl ifanc 16-19 oed sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n disodli'r gyfraith ar gyfer teithio gan ddysgwyr yng Nghymru sydd wedi'i nodi yn Neddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) ac mae'n cydgrynhoi ac yn symleiddio'r darpariaethau statudol presennol. Bydd y Mesur, yn ei hanfod:

- yn rhoi mwy o hawl i blant ysgolion cynradd gael cludiant am ddim i'r ysgol os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy o'r ysgol;
- yn ailddeddfu'r hawl i blant ysgolion uwchradd gael cludiant am ddim os ydynt yn byw dair milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf;
- yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi hawl i gludiant am ddim i'r ysgol os yw'r rhieni am i'w plentyn dderbyn ei addysg mewn ysgol grefyddol ei natur, yn amodol ar y meini prawf o ran oedran/pellter, os nad yw'r ysgol addas agosaf yn ysgol grefyddol ei natur;
- yn cyflwyno gofyniad penodol i asesu anghenion plant sy'n derbyn gofal, ac i ddarparu ar eu cyfer, ac egluro'r trefniadau talu cysylltiedig rhwng yr awdurdodau lleol yng Nghymru;
- yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur, hybu mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cod ymddygiad mewn perthynas â theithio i fannau dysgu ac oddi yno ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cod hwnnw fod yn rhan o god ymddygiad ysgol; ac
- yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol newid amserau sesiynau ysgolion os gall hynny arwain at welliannau o ran trefniadau cludo neu gynaliadwyedd amgylcheddol.

Bydd y Mesur hefyd yn gyfrwng i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol a gwneud darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc ôl-16 sy'n ddysgwyr a phlant sy'n derbyn addysg feithrin.

# 2. Cefndir deddfwriaethol

2.1 Mae Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu'r sail statudol bresennol ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed.

2.2 Rhoddodd Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 bŵer fframwaith i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â *"the travel of persons receiving primary, secondary or further education or training to and from the schools or other places where they receive it"*. Troswyd y pŵer gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn unol â pharagraff 31(2) a (4) o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr oedd y Gorchymyn yn diddymu adrannau 178 ac 179 o'r Ddeddf Addysg ac Arolygiadau ac yn mewnosod darpariaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu mewn perthynas â Mater 5.10 o Faes 5 Addysg a Hyfforddiant yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel a ganlyn:

*“Matter 5.10 (as amended by the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Education and Training) Order 2008)*

Arrangements for persons to travel to and from the places where they receive education or training.

This matter applies to –

(a) persons receiving nursery, primary, secondary or further education or training;
(b) persons described in matter 5.17 receiving higher education.

This matter does not include any of the following:

The regulation of use of motor vehicles on roads, their construction and equipment and conditions under which they may be so used;
Road traffic offences;
Driver licensing;
Driving instruction;
Insurance of motor vehicles;
Drivers’ hours;
Traffic regulation on special roads, pedestrian crossings, traffic signs and speed limits;
Public service vehicle operator licensing;
Provision and regulation of railway services ….
Registration of local bus services, and the application and enforcement of traffic regulation conditions in relation to those services.”

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

## Cefndir Polisi

3.1 Mae’r polisi a’r gyfraith ar gyfer darparu cludiant i blant oedran ysgol rhwng y cartref a’r ysgol, a chynlluniau teithio ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, yn bodoli er mwyn i blant a phobl ifanc allu ymgymryd â dysgu heb i’r teithio fod yn rhwystr iddynt gymryd rhan. Mae cael nifer mawr o blant a phobl ifanc yn teithio gyda’i gilydd yn hwyluso mynediad at addysg ac yn helpu i leihau tagfeydd ar y ffyrdd.

3.2 Er bod y gyfraith bresennol wedi’i chynnwys yn Neddf Addysg 1996 (fel y’i diwygiwyd), mae’n deillio o Ddeddf Addysg 1944 a sefydlodd yr hawl i ddisgyblion o oedran addysg statudol gael cludiant am ddim. Mae disgyblion o dan wyth oed yn cael cludiant am ddim os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy o’r ysgol addas agosaf ac mae gan ddisgyblion dros wyth oed hawl i gael cludiant am ddim os ydynt yn byw dair milltir neu fwy i ffwrdd. Dewiswyd wyth oed oherwydd dyna’r oedran pan fyddai plant yn trosglwyddo o addysg fabanod i addysg gynradd a gâi, yn hanesyddol, eu darparu mewn ysgolion gwahanol. Yn gyffredinol, yn unol ag adran 509 o Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddarparu cludiant am ddim i blant sy’n byw ymhellach i ffwrdd na’r pellter statudol. Dylai ysgol

gael ei barnu'n addas ar gyfer plentyn os yw'n darparu addysg sy'n addas ar gyfer oedran y plentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo/ganddi. Nid dewis y rhieni i sicrhau addysg drwy gyfrwng iaith benodol, neu mewn lleoliad sydd ag ethos crefyddol neu o ffydd arbennig, ddylai benderfynu a yw ysgol yn addas. Mae gan awdurdodau lleol bŵer disgresiwn i gynnig cludiant am ddim neu am bris gostyngol i'r plant hynny nad ydynt yn gymwys o dan y meini prawf statudol.

3.3 Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai plant fynychu'r ysgol addas agosaf at eu cartref, gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion enwadol yn ddewisiadau realistig. Er bod Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddatgan eu dymuniad i'w plentyn fynychu ysgol benodol, nid yw'n rhoi'r hawl absoliwt i'r plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol honno. Os caiff plentyn ei dderbyn i ysgol heblaw am yr ysgol addas agosaf, gall yr awdurdod lleol weithredu yn ôl ei ddisgresiwn wrth benderfynu a fydd yn darparu cludiant am ddim neu yn rhoi cymorth tuag at dalu am gludiant i'r ysgol honno ai peidio.

3.4 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog pobl ifanc 16-19 oed i gofrestru ar gwrs addysg neu hyfforddiant os nad ydynt yn cael eu cyflogi'n amser llawn. Mae nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn mynd ati'n wirfoddol i ddarparu cymorth ar gyfer teithio neu i drefnu cludiant. Yn unol ag adran 509AA o Ddeddf Addysg 1996, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi cynlluniau polisi cludiant yn flynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am drefniadau teithio lleol at ddibenion addysgol, ond nid oes reidrwydd cyfreithiol arnynt i ddarparu cludiant i fan dysgu ac oddi yno ar gyfer myfyrwyr ôl-16.

3.5 Cyhoeddwyd nifer o astudiaethau ynghylch cludiant i'r ysgol megis:

- *…Ond Mod i'n Cyrraedd yn Sâff* – a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn 2004, a oedd yn tynnu ynghyd brofiadau a syniadau plant a phobl ifanc a ddefnyddiai fysiau ysgol;
- *School Transport* - Adroddiad y Gymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth a Chydffederasiwn Cludiant Teithwyr 2004;
- *Good Practice in School Transport in Wales* – astudiaeth gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2005; ac
- *Arolwg o'r Polisi Cludiant i'r Ysgol* gan Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol yn 2005.

3.6 Ymatebodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mis Mehefin 2005 a derbyniodd yr argymhellion i gyhoeddi'r canllawiau diweddaraf mewn perthynas â'r gyfraith ar gyfer yr awdurdodau lleol. Neilltuodd y Gweinidog hwnnw hefyd £1m y flwyddyn o 2007-08 i 2009-10 i wella cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac i annog cydweithio rhwng yr awdurdodau. Ar ôl ymgynghori yn eu cylch, cyhoeddwyd canllawiau (anstatudol) newydd ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar 15 Ebrill 2008. Mae'r astudiaethau uchod wedi cynnig sylwadau ar bwysigrwydd ymddygiad da ar fysiau ysgol mewn perthynas â'r goblygiadau o ran diogelwch ac er mwyn sicrhau bod y siwrnai yn un bleserus. Mae gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol god ymddygiad ac maent yn pennu cosbau os bydd angen. Mae'n hanfodol bod y codau a'r cosbau yn gymesur,

yn weithredol ac yn hawdd eu gorfodi. Yr oedd yr ymgynghoriad ynghylch y Mesur yn awgrymu bod cysondeb ledled Cymru hefyd yn fater yr ystyriwyd ei fod yn bwysig. Mae'r astudiaethau hefyd wedi nodi'r potensial i wella trefniadau bysiau ysgol drwy wneud mân addasiadau i amserau sesiynau ysgolion.

3.7 Yn 2004 ymgynghorodd Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru ar fersiwn ddrafft o Fesur Cludiant i'r Ysgol. Yr oedd y Mesur yn cynnig caniatáu i awdurdodau lleol drefnu eu cynlluniau teithio eu hunain drwy brofion modd. Awgrymodd adborth a ddaeth i law oddi wrth y rhanddeiliaid nad oedd llawer o frwdfrydedd mewn perthynas â defnyddio profion modd i benderfynu pwy oedd yn gymwys i gael cludiant am ddim yng Nghymru. Ni ddaeth y Mesur yn gyfraith gwlad ond cafodd llawer o'r hyn a fwriadwyd ar ei gyfer ei ddeddfu mewn perthynas â Lloegr yn y Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

3.8 Dylid ystyried anghenion cludo plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg a hyfforddiant yn erbyn cyd-destun ehangach trafnidiaeth yn gyffredinol. Mae trafnidiaeth yn bwysig i nifer o wahanol agweddau ar gymdeithas ac mae cwestiynau astrus iawn yn codi ynghylch darparu cludiant. Mae gan yr awdurdodau lleol amryw o swyddogaethau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill i gydweithio yn unol ag egwyddorion *Creu'r Cysylltiadau* ac *Adolygiad Beecham*. Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a ddatblygwyd o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, yn rhoi pwyslais ar gydweithio a chynaliadwyedd. Sefydlwyd pedwar consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol er mwyn gwella dulliau o gynllunio a darparu cludiant.

3.9 Mae trafnidiaeth yn creu llygredd ac mae adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynllunio ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno yn achosi tagfeydd, ac mae iddo oblygiadau o ran diogelwch ar y ffyrdd a llygredd. Er mwyn annog mwy o bobl i gerdded a beicio, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi annog cerdded i'r ysgol drwy'r *Cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol*, sydd wedi'i ehangu'n rhaglen *Llwybrau Diogel yn y Gymuned.* Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu yn wyneb y cynnydd yng nghyfran y plant sy'n teithio i'r ysgol mewn ceir a'r tagfeydd sy'n cael eu hachosi yn rhannol gan yr arfer o hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno. Mae'r tablau isod yn rhoi mwy o wybodaeth am y tueddiadau yng Nghymru.

**Sut mae plant yn mynd i'r ysgol**

| Pob plentyn 5-16 oed | 1995-99 | 2005-06 |
|---|---|---|
| Car | 29% | 38% |
| Bws | 32% | 21% |
| Cerdded | 37% | 39% |
| | | |

*Ffynhonnell: Yr Arolwg Teithio Cenedlaethol.*

Mae gwahaniaeth amlwg yn y dulliau teithio rhwng plant ysgolion cynradd a phlant ysgolion uwchradd, gyda llawer mwy o ddefnydd o'r car a cherdded ymhlith plant cynradd.

**Plant a oedd yn mynd i'r ysgol mewn car ac ar fws yn ystod 2003-06**

| | 5-10 oed | 11-16 oed | Pob oedran |
|---|---|---|---|
| Car | 48% | 26% | 37% |
| Bws | 10% | 37% | 23% |
| Cerdded | 40% | 24% | 37% |
| Arall | 1% | 3% | 2% |

*Ffynhonnell: Yr Arolwg Teithio Cenedlaethol*

| Tagfeydd ar ffyrdd Cymru 2003-06 | |
|---|---|
| Canran o'r ceir yn ystod oriau brig sy'n hebrwng plant i'r ysgol | 23% |
| Canran o'r oriau brig (08:50 o'r gloch) | 29% |
| | |

Ffynhonnell: *Yr Arolwg Teithio Cenedlaethol*. Nodir data ar gyfer 08:00 - 08:59 o'r gloch rhwng dydd Llun a dydd Gwener mewn ardaloedd trefol yn ystod y tymor.

## Amcanion y Mesur

3.10 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod i'r casgliad bod egwyddorion sylfaenol y gyfraith bresennol yn iawn ar gyfer Cymru ond bod angen cydgrynhoi, symleiddio a gwneud gwelliannau. Dylai'r gyfraith ddarparu fframwaith cenedlaethol sy'n pennu'r safonau gofynnol a lefelau'r hawl i gludiant am ddim yn seiliedig ar oedran plant a phobl ifanc a'r pellter y mae'n rhaid iddynt deithio. Penderfynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ystod trafodion Cyfnod 2, y dylai fod hawl hefyd i gludiant am ddim i'r ysgol os yw'r rhieni am i'w plentyn dderbyn ei addysg mewn ysgol grefyddol ei natur, yn amodol ar y meini prawf oedran/pellter, os nad yw'r ysgol addas agosaf yn ysgol grefyddol ei natur. Mae'r terfynau presennol o ran oedran a phellter wedi dyddio ar gyfer dysgwyr yn y sector cynradd ac yn ymarferol mae llawer o awdurdodau'n darparu mwy na'r lleiafswm sy'n ofynnol ar hyn o bryd. Ond mae'r model oedran-pellter yn parhau yn berthnasol ac yn cael ei ffafrio yn hytrach na chynnal profion modd ar rieni neu fyfyrwyr. Dylai awdurdodau lleol barhau i chwarae rôl ganolog yn y gwaith o gynllunio a gwneud trefniadau teithio a dylent gael y disgresiwn i wneud mwy na'r lleiafswm o ran yr hawl a ddarperir gan y gyfraith os ydynt o'r farn bod hyn yn fantais neu yn angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion lleol.

3.11 Mae cyfran uchel o'r awdurdodau lleol yn ffafrio penderfynu ar yr hawl i gael cludiant am ddim ar sail oedran y plentyn a'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol addas agosaf. Ystyrir bod y system oedran-pellter yn effeithiol, yn briodol ac yn hawdd ei gweithredu, er bod cefnogaeth i ddiweddaru'r terfynau er mwyn eu gwneud yn fwy hael. Mae awdurdodau'n dymuno cael y disgresiwn i wneud y trefniadau ond hynny o fewn fframwaith clir a chryf ar gyfer Cymru gyfan sy'n pennu'r gofynion sylfaenol ac sy'n cydymffurfio â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

3.12 Amcanion y Mesur yw:

- darparu fframwaith deddfwriaethol wedi ei symleiddio ac ar wahân ar gyfer Cymru y gellir ei ddatblygu i gefnogi polisïau addysg a thrafnidiaeth wrth iddynt esblygu (er enghraifft, bydd y trefniadau ar gyfer cynlluniau teithio ôl-16 sydd ar wahân ar hyn o bryd yn cael eu diddymu);
- darparu o fis Medi 2009 ymlaen lefel uwch o hawl i bob disgybl ysgol gynradd gael cludiant am ddim, gan bennu trothwy o ddwy filltir neu fwy o'r cartref i'r ysgol addas agosaf, gan felly helpu i leihau'r gyfran sy'n teithio mewn car a sicrhau manteision o ran tagfeydd a'r amgylchedd;
- cadw'r trothwy pellter presennol o dair milltir ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd i fod yn gymwys i gael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol addas agosaf;
- gwneud darpariaeth sy'n rhoi hawl i gludiant am ddim i'r ysgol os yw'r rhieni am i'w plentyn dderbyn ei addysg mewn ysgol grefyddol ei natur, yn amodol ar y meini prawf oedran/pellter, os nad yw'r ysgol addas agosaf yn ysgol grefyddol ei natur;
- yng ngoleuni'r ymgynghoriad, mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i asesu a diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Mesur, hybu mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- darparu'r gallu i wneud darpariaeth yn y dyfodol mewn perthynas â hawliau teithio plant sy'n derbyn addysg feithrin a myfyrwyr ôl-16;
- sicrhau bod cydweithredu rhwng yr awdurdodau ac ysgolion a darparwyr addysg bellach a chynaliadwyedd amgylcheddol yn cael lle canolog wrth gynllunio a darparu trefniadau teithio;
- hyrwyddo safonau cyffredin ledled Cymru mewn perthynas ag ymddygiad a disgyblaeth ar gyfer y rheini sy'n teithio i'w mannau dysgu neu hyfforddi ac oddi yno – pa ddull bynnag a ddefnyddir – ac egluro'r trefniadau gorfodi;
- rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol newid amserau sesiynau ysgolion os gall hynny helpu i wneud y trefniadau cludo yn fwy effeithiol, yn fwy effeithlon neu'n fwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd; a
- galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau statudol.

## Esbonio'r Darpariaethau

3.13 Caiff darpariaethau'r Mesur eu hesbonio yn y Nodiadau Esboniadol yn Atodiad 1.

## Cymhwysiad

3.14 Bydd y Mesur yn gymwys i Gymru gyfan.

3.15 Daw’r rhan fwyaf o’r darpariaethau yn y Mesur i rym ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2009-10. Nid oes dyddiad wedi’i bennu eto ar gyfer cychwyn y darpariaethau mewn perthynas ag ysgolion crefyddol eu natur.

# 4. Ymgynghori

4.1 Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cwrdd â’r holl awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn edrych ar gwmpas y polisi a’r gyfraith bresennol. Yr oedd y trafodaethau yn canolbwyntio ar briodoldeb y system oedran-pellter wrth benderfynu ar yr hawl i deithio neu a ddylid defnyddio system wahanol. Cafwyd cefnogaeth yn fras i gadw egwyddor y system oedran-pellter, gan adleisio’r ymateb a gafwyd i’r broses ymgynghori ar y Mesur Cludiant i’r Ysgol (gweler paragraff 3.6). Ystyriwyd hefyd sut yr oedd awdurdodau’n gallu rheoli, datblygu a darparu cludiant i’r ysgol o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon yn sail i’r broses o ddatblygu’r Mesur.

4.2 Mae adolygiad polisi trawsadrannol, drwy’r broses porth i bolisïau, wedi’i gynnal ar y cynigion yn y Mesur ac yr oedd y canlyniad yn gefnogol.

4.3 Ym mis Mehefin 2007, trefnwyd bod y Mesur drafft ar gael at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus cyn ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir gweld copi o’r ddogfen ymgynghori (sy’n cynnwys y cwestiynau ymgynghori) a chrynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad drwy’r ddolen a ganlyn: http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/transcloscons/1523880/?force=cy.

4.4 Bu Pwyllgor Menter a Dysgu’r Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar y Mesur hefyd, a chyhoeddwyd ei adroddiad ar 21 Tachwedd 2007. Mae’r adroddiad i’w weld drwy’r ddolen a ganlyn: http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld6874.pdf.

4.5 Yr oedd yr holl ymatebion a ddaeth i law yn dangos bod cefnogaeth eang i ymyriad arfaethedig gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn mynd i’r afael â materion yn ymwneud â theithio gan ddysgwyr. Yr oedd gwahaniaeth barn ar rai o’r agweddau allweddol megis disgresiwn yr awdurdodau lleol, cludiant i sefydliadau cyfrwng Cymraeg a sefydliadau ffydd, newid amserau sesiynau ysgolion, codau ymddygiad a gorfodi, Llwybrau 14-19 a phlant sy’n derbyn gofal. Codwyd materion hefyd ynghylch rheoleiddio bysiau a diogelwch bysiau ond ni all y Mesur ymdrin â’r rhain gan nad oes gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud hynny; mae angen cymryd camau ar wahân mewn perthynas â’r materion hynny.

4.6 Ar ôl ystyried safbwyntiau’r rheini yr ymgynghorwyd â hwy a safbwyntiau’r Pwyllgor, mae newidiadau sylweddol wedi’u gwneud i rai o feysydd allweddol y Mesur. Dyma’r prif newidiadau:

**Plant sy’n derbyn gofal**

- bod yn rhaid i awdurdodau lleol hefyd ystyried anghenion plant sy’n ‘derbyn gofal’ a phlant a fu gynt yn ‘derbyn gofal’ pan fyddant yn asesu anghenion teithio dysgwyr yn eu hardaloedd (adran 2 ddiwygiedig);

- bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant ar gyfer plant sy’n derbyn gofal os ydynt yn byw mwy na dwy filltir (yn achos ysgolion cynradd) neu dair

milltir (yn achos ysgolion uwchradd) o'u hysgolion hyd yn oed os oes ysgol agosach y gallent ei mynychu (adrannau 3 a 4 diwygiedig);

- egluro'r trefniadau ar gyfer costau teithio ar gyfer plentyn sy'n 'derbyn gofal' os yw'r trefniadau teithio'n cael eu gwneud mewn ardal awdurdod arall (adran 18 newydd);

**<u>Codau ymddygiad a gorfodi</u>**

- er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran y dull o weithredu, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cod ymddygiad a fydd yn gymwys i'r holl deithio gan bobl ifanc o dan 19 mlwydd oed mewn cysylltiad â dysgu, ni waeth a yw'r trefniadau'n cael eu gwneud gan yr awdurdod lleol ai peidio (adran 12 ddiwygiedig – adran 10 yn y drafft ymgynghori). Bydd y cod yn dod yn rhan o bolisi ymddygiad cyffredinol yr ysgol a bydd yn rhaid i ddisgyblion ysgol gydymffurfio ag ef (adran 13 ddiwygiedig – adran 11 yn y drafft ymgynghori);

- awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am orfodi'r cod ymddygiad. Os oes disgyblion sy'n elwa ar drefniadau a wneir gan yr awdurdod lleol yn gysylltiedig â digwyddiad, bydd yr awdurdod lleol yn gallu tynnu'n ôl yr hawl i gludiant y mae wedi'i drefnu (adran 14 ddiwygiedig – adran 12 yn y drafft ymgynghori). Eglurir hyn ymhellach mewn canllawiau a fydd hefyd yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau y mae disgyblion nad ydynt yn elwa ar drefniadau teithio a wneir gan yr awdurdod lleol yn gysylltiedig â hwy; ac

**<u>Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg</u>**

- gofyniad ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Mesur, i hybu mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (adran 10 newydd).

4.7 Yn ystod trafodion Cyfnod 2 penderfynwyd hefyd gan Bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru y dylid gwneud newidiadau i'r Mesur, sef yn bennaf:

**Cludiant i ysgolion crefyddol eu natur**

- Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr y mae eu rhieni am iddynt dderbyn addysg mewn ysgol grefyddol ei natur (neu, os ydynt yn oedolion, eu bod yn dymuno hynny iddynt hwy eu hunain), a threfnu cludiant i'r ysgol os yw'r rhiant/rhieni am i'w plentyn dderbyn ei addysg mewn ysgol grefyddol ei natur, yn amodol ar y meini prawf o ran oedran/pellter, os nad yw'r ysgol addas agosaf yn ysgol grefyddol ei natur.

# 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae pwerau yn adrannau 2(1)(c), 3(9), 7, 8, 12(3)(c), 16, 21(2) a 28(2) i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r holl bwerau hyn yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru,

a phwerau ydynt i wneud rheoliadau neu orchmynion drwy gyfrwng offerynnau statudol (gweler adran 27(1)).

## Pŵer i Wneud Rheoliadau mewn perthynas â Hawl

5.2 Mae'r Mesur yn cynnwys pŵer galluogi a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â hawl plant i deithio (adran 3(9)). Bwriad y pŵer yw rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddisodli'r hawl i gludiant am ddim a roddir gan y Mesur i blant ysgolion cynradd ac uwchradd, i ychwanegu at yr hawl honno neu i'w haddasu.

5.3 Mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'r casgliad ei bod hi'n well penderfynu ar hawl plant ysgolion cynradd ac uwchradd i gael cludiant ar sail eu hoedran a'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol. Penderfynwyd o ganlyniad i drafodion Cyfnod 2 hefyd y dylai fod hawl wedi'i chysylltu ag ysgolion crefyddol eu natur. Mae'n bosibl y bydd hyn yn newid gydag amser ac efallai y byddai trefniadau eraill, neu wahanol derfynau o ran oedran a / neu bellter yn cael eu ffafrio. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiweddaru a datblygu'r gyfraith ar gyfer yr hawl i gael cludiant am ddim neu gludiant â chymhorthdal yn unol â datblygiadau mewn polisi addysg neu mewn polisi teithio. Bernir ei bod yn briodol gwneud hyn drwy gyfrwng rheoliadau er mwyn medru ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i angen i newid yr hawliau. Felly, gallai rheoliadau a wneir o dan adran 3(9) ddiwygio neu ddiddymu'r darpariaethau sy'n rheoli'r amgylchiadau a'r amodau sy'n gymwys mewn perthynas â dyletswydd yr awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio, a gallent hefyd wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, drosiannol, arbed neu ganlyniadol, gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall (gweler adran 27(2), (3) a (4)).

5.4 Mae pwerau hefyd i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch trefniadau teithio ar gyfer plant sy'n derbyn addysg feithrin ac ar gyfer pobl ifanc ôl-16 sy'n ddysgwyr (adrannau 7 ac 8). Gall rheoliadau a wneir o dan adrannau 7 ac 8 hefyd wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, drosiannol, arbed neu ganlyniadol, gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall (gweler adran 27(2), (3) a (4)).

5.5 Mewn perthynas ag addysg feithrin (adran 8), caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau teithio neu ganiatáu iddo wneud hynny; pennu'r mathau o fan y caniateir gwneud, neu y mae'n rhaid gwneud, trefniadau teithio yno ac oddi yno; pennu'r trefniadau teithio y caniateir, neu y mae'n rhaid, eu gwneud yn ogystal â'r materion y mae'n rhaid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am drefniadau teithio; gwneud darpariaeth ynghylch codi tâl; a'i gwneud yn ofynnol i roi gwybodaeth a chymorth i'r awdurdod lleol. Gallai'r rheoliadau adlewyrchu'r math o ddarpariaeth a wneir yn y Mesur mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol. Bernir ei bod yn briodol gosod dyletswyddau ar yr awdurdodau lleol neu roi pwerau iddynt gan mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud trefniadau ar sail yr asesiad o anghenion y byddant wedi'i gynnal o dan adran 2 o'r Mesur.

5.6 O safbwynt dysgwyr ôl-16, caiff y rheoliadau roi pwerau i Weinidogion Cymru, i awdurdodau lleol a/neu i sefydliadau yn y sector addysg bellach oherwydd mae'n bosibl y bydd gan y tri ohonynt rôl i'w chwarae. Caiff y rheoliadau bennu'r mathau o fan y caniateir gwneud, neu y mae'n rhaid gwneud, trefniadau teithio yno ac oddi yno; pennu'r trefniadau teithio y caniateir, neu y mae'n rhaid, eu gwneud, yn ogystal â'r materion y mae'n rhaid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am drefniadau teithio; gwneud darpariaeth ynghylch codi tâl; ei gwneud yn ofynnol i roi gwybodaeth a chymorth i bersonau eraill mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau o dan y rheoliadau (mae hyn yn arbennig o berthnasol gan y bydd awdurdodau lleol wedi casglu gwybodaeth o ganlyniad i'r asesiad o anghenion y mae'n ofynnol iddynt ei gynnal o dan adran 2 o'r Mesur); a gwneud darpariaeth ynghylch y safonau ymddygiad a ddisgwylir wrth deithio i fannau dysgu ac oddi yno (sy'n golygu y gellir gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi'r Cod Ymddygiad wrth Deithio a wneir o dan adran 12).

5.7 Mae gofynion cludiant plant sy'n derbyn addysg feithrin a phobl ifanc ôl-16 sy'n ddysgwyr yn gymhleth ac mae materion gwahanol yn deillio ohonynt nag yn achos plant mewn ysgolion cynradd a phlant mewn ysgolion uwchradd. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod y gall y cludiant sydd ar gael a'i gost fod yn ffactor i'r dysgwyr hyn neu eu rhieni. Serch hynny, mae Gweinidogion Cymru am edrych ar yr opsiynau ar gyfer rhoi'r hawl i'r grwpiau hyn gael cludiant ac am wneud gwaith ymchwil manwl ar y costau, y manteision a'r agweddau ymarferol. Bydd y gwaith hwn yn cymryd cryn dipyn o amser a bydd angen iddo ystyried adolygiad o brosiectau peilot. Am y rhesymau hyn, ni fydd y rheoliadau mewn perthynas â'r hawl i deithio ar gyfer y grwpiau hyn ar gael i'w hystyried yn ystod taith y Mesur. Bernir ei bod yn briodol cael pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r grwpiau hyn er mwyn medru gwneud darpariaeth i roi hawliau i'r grwpiau hyn mewn modd hyblyg a phrydlon, os deuir i'r casgliad, ar ôl ystyried yr opsiynau, mai dyna fyddai'n briodol.

5.8 Mae'n debygol y byddai unrhyw ddarpariaethau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn adrannau 7 ac 8 yn ymwneud â'r materion a ganlyn:

- y dyletswyddau ar gyrff i ddarparu neu i wneud trefniadau mewn perthynas â chludiant i blant a phobl ifanc (gweler yn benodol adran 7(2) a (3)(a) mewn perthynas â threfniadau teithio ar gyfer dysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 ac adran 8(1) a (2) (a) a (b) mewn perthynas â theithio i fan lle y darperir addysg feithrin ac oddi yno; neu
- y grwpiau o blant a phobl ifanc sydd â'r hawl i gael cludiant (gan ddefnyddio adran 7(2) mewn perthynas â threfniadau teithio ar gyfer dysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu adran 8(1) mewn perthynas â theithio i fan lle y darperir addysg feithrin ac oddi yno).

5.9 Bydd Gweinidogion Cymru yn comisiynu astudiaethau ar effaith a chost a budd unrhyw gynigion cyn cynnig rheoliadau o dan adran 3(9) neu adrannau 7 neu 8. O dan adran 27(7), bydd yn rhaid gwneud y rheoliadau hyn yn unol â'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a bydd asesiad effaith rheoleiddiol yn cael ei gynnal, a hynny oherwydd bod y rheoliadau'n rhoi cryn ddisgresiwn i Weinidogion Cymru a gallent hefyd ddiwygio darpariaethau eraill yn y Mesur ac mewn deddfwriaeth arall.

O dan yr amgylchiadau hynny, bernir ei bod yn briodol i'r Cynulliad graffu ar y rheoliadau cyn iddynt gael eu gwneud.

## Pwerau Eraill ar gyfer Gwneud Rheoliadau a Gorchmynion

5.10 Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch agweddau eraill ar y Mesur fel a ganlyn:

- rhagnodi dysgwyr eraill i'w cynnwys wrth asesu anghenion teithio (adran 2(1)(c) a dysgwyr eraill y bydd y cod ymddygiad wrth deithio yn gymwys iddynt (adran 12(3)(c);
- cyhoeddi gwybodaeth am asesiadau, trefniadau teithio a'r cod ymddygiad wrth deithio (adran 16); a
- y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd awdurdod lleol yn defnyddio'i bwerau i i newid amserau dechrau a gorffen ysgolion (adran 21 – diwygiadau i Ddeddf Addysg 2002).

5.11 Bydd y rheoliadau hefyd yn gallu gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion neu ardaloedd gwahanol, gwneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol, a gwneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, drosiannol neu arbed, gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall (gweler adran 27(2) a (4)).

5.12 Bydd rheoliadau o dan y pwerau hyn yn ymdrin â materion sy'n dechnegol neu'n weithdrefnol eu natur neu byddant yn nodi manylion. Byddai natur a chynnwys y darpariaethau a gâi eu gwneud drwy gyfrwng y cyfryw reoliadau yn golygu na fyddai'n briodol cynnwys y darpariaethau hynny yn y Mesur ei hun. Mae'n ddymunol hefyd fod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ddiwygio'n gyflym ddarpariaethau am faterion megis pryd i gyhoeddi gwybodaeth.

5.13 O dan adran 27(5), y weithdrefn penderfyniad negyddol a ddefnyddir mewn perthynas â'r rheoliadau hyn, a hynny am fod eu cwmpas yn gyfyng ac am eu bod yn ymdrin â manylion a phrosesau. Mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn golygu bod y Cynulliad yn gallu craffu i'r graddau sy'n briodol ar gyfer y math cyfyngedig o ddarpariaeth y gellir ei wneud yn y rheoliadau hyn. Er hynny, os oes unrhyw reoliadau o dan y pwerau hyn yn diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Fesur neu Ddeddf Seneddol yna, yn unol ag adran 27(7)(d), defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol oherwydd bernir mai'r lefel uwch hon o graffu sy'n briodol ar gyfer rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

5.14 Mae pŵer yn adran 28(2) i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gychwyn darpariaethau'r Mesur. Yn ôl y drefn arferol ar gyfer gorchmynion cychwyn, ni ddefnyddir gweithdrefn ar gyfer y cyfryw orchmynion.

# 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Mesur hwn i'w weld yn rhan 2.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 7. Opsiynau

7.1 Nid yw'r gyfraith wedi cadw'n gyson â pholisïau addysg ac â'r newidiadau yn ymddygiad pobl sy'n golygu y gall rhieni fod yn gyndyn o adael i'w plant gerdded i'r ysgol neu o gerdded gyda hwy. Mae'r ffyrdd yn fwy prysur, mae mwy o bobl yn berchen ar geir bellach ac mae rhieni yn fwy tebygol o fynd â'u plant i'r ysgol mewn car. Mae llawer o blant yn dechrau ar eu haddysg cyn eu pen-blwydd yn bump oed ac mae pobl ifanc yn cael eu hannog i barhau â'u dysgu ar ôl 16 oed. Mae'r fframwaith statudol presennol yn ddarniog. Dymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw medru diweddaru a newid hawliau plant a phobl ifanc i gludiant am ddim neu gludiant â chymhorthdal wrth i bolisïau addysg a thrafnidiaeth ddatblygu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a cholegau gydweithredu â'i gilydd er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy o ran yr amgylchedd.

7.2 Dyma'r opsiynau:

Opsiwn 1 – gwneud dim;
Opsiwn 2 – darparu canllawiau ac adnoddau ychwanegol i awdurdodau; neu
Opsiwn 3 – cyflwyno Mesur Cynulliad.

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

7.3 Mae'r gyfraith ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a chynlluniau teithio ôl-16 wedi hen ennill ei phlwyf ac yn ddealledig. Mae gan bob awdurdod lleol drefniadau cludo sy'n cael eu gweithredu yn unol â'r gyfraith neu maent yn defnyddio eu pŵer disgresiwn i gynnig telerau mwy hael. Mae oddeutu 21% o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol ar fws, 39% yn cerdded a 38% mewn car (*Ffynhonnell: Yr Arolwg Teithio Cenedlaethol 2007)* .

7.4 Mae gwneud dim yn annhebygol o arwain at welliant:

- byddai'r gyfraith yn parhau'n ddarniog ac yn dyddio mwy heb roi cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiweddaru'r hawl i deithio yn unol â pholisïau addysg neu drafnidiaeth wrth iddynt ddatblygu;
- byddai'r drefn o ddarparu cynlluniau teithio ar wahân ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn parhau, yn hytrach na defnyddio dulliau integredig o asesu anghenion teithio plant a phobl ifanc;
- ni fyddai awdurdodau lleol yn gallu newid amserau sesiynau ysgolion er mwyn gwneud trefniadau teithio yn fwy effeithlon, yn fwy effeithiol ac yn fwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd;
- byddai ansicrwydd ynghylch disgyblaeth ar fysiau ysgol yn parhau a byddai'r dull o weithredu yn parhau i fod yn anghyson ledled Cymru;

- ni fyddai statws statudol i'r canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n bosibl na fyddai arferion gorau yn cael eu mabwysiadu.

## Opsiwn 2 – Darparu Canllawiau ac Adnoddau Ychwanegol

7.5 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau anstatudol ar y gyfraith bresennol a'r arferion presennol yn sgil argymhellion adolygiad a wnaed gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r canllawiau yn esbonio'r dyletswyddau cyfreithiol sydd ar awdurdodau lleol ac yn cynnig barn bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch amryw bynciau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn darparu £1m y flwyddyn o gyllid ychwanegol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ariannu gwelliannau mewn cludiant rhwng y cartref a'r ysgol rhwng 2007-08 a 2009-10.

7.6 Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y bydd y camau hyn:

- yn dileu unrhyw ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae'n ofynnol i awdurdodau ei wneud yn unol â'r gyfraith fel y saif ar hyn o bryd;
- yn cynnig eglurder o ran disgwyliadau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- yn helpu i godi safonau; ac
- yn cefnogi cydweithredu rhwng awdurdodau lleol gan rannu arferion da a dulliau cyffredin o ymdrin â materion gweithredol fel y bo'n briodol.

7.7 O dan opsiwn 2 byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diweddaru'r canllawiau anstatudol o bryd i'w gilydd a gallai barhau i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer cludiant i'r ysgol. Byddai manteision i opsiwn 2 ond byddent yn cael eu cyfyngu gan y fframwaith cyfreithiol a osodir yn Neddf Addysg 1996. Byddai opsiwn 2 yn golygu:

- na fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu diweddaru'r hawl gyfreithiol i deithio yn unol â datblygiadau i bolisïau addysg a thrafnidiaeth;
- y byddai cynlluniau teithio ar wahân yn parhau ar gyfer dysgwyr ôl-16, yn hytrach na dulliau integredig o asesu anghenion teithio plant a phobl ifanc;
- na allai awdurdodau lleol newid amserau sesiynau ysgolion o hyd;
- y gallai amheuaeth barhau ynghylch pwerau awdurdodau lleol i sicrhau ymddygiad da ar fysiau ysgol ac yn fwy cyffredinol wrth deithio, a dichon y byddai anghysondeb ar draws Cymru yn hyn o beth; ac
- y byddai canllawiau anstatudol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau'n farn ac na fyddai iddynt statws statudol.

## Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur Cynulliad

7.8 Dyma'r unig opsiwn a all fynd i'r afael yn llawn â'r amcanion polisi. Byddai Mesur yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio fframwaith statudol sy'n gweddu orau i anghenion plant a phobl ifanc. Mae'n cynnig yr hyblygrwydd mwyaf o ran llunio polisi a chyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu is-ddeddfwriaeth yn unol â

gofynion y polisïau addysg a thrafnidiaeth. Byddai Mesur yn mynd i'r afael â'r amcanion polisi fel a ganlyn:

- byddai'n sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar wahân, wedi'i symleiddio a'i gydgrynhoi ar gyfer Cymru, yn annibynnol ar y gyfraith ar gyfer Lloegr, a all gael ei ddatblygu i gefnogi'r polisïau addysg a thrafnidiaeth wrth iddynt esblygu;
- byddai'n caniatáu pennu gwahanol lefelau o hawl i gludiant am ddim – terfyn mwy hael yn y lle cyntaf i blant ysgolion cynradd gan ddileu'r gwahaniaethu yn 8 oed a hawl i ysgolion crefyddol eu natur – ond yn y tymor hwy byddai'n gyfrwng i ganiatáu hawl gyfreithiol i bobl ifanc yn y sector ôl-16, plant sy'n derbyn addysg feithrin, neu i bennu terfynau pellter gwahanol ar gyfer plant ysgolion cynradd neu uwchradd;
- byddai'n ei gwneud hi'n ddyletswydd ar awdurdodau ac ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gydweithredu a byddai'n rhoi lle canolog i gynaliadwyedd amgylcheddol wrth gynllunio a darparu trefniadau teithio;
- byddai'n cryfhau'r camau diogelu mewn perthynas ag ymddygiad ar gyfer y rheini sy'n teithio i'w man dysgu; a
- byddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol a chyfarwyddiadau mewn perthynas â swyddogaethau sydd yn y Mesur.

7.9 O dan opsiwn 3, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu gweithredu ar y camau a ddisgrifir yn opsiwn 2 o hyd. Mae opsiwn 3 yn mynd â'r datblygiadau a'r cyfleoedd gam ymhellach.

## 8. Costau a manteision

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

8.1 Ni fyddai unrhyw gost ynghlwm wrth opsiwn 1 i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol ond ni fyddai unrhyw fanteision iddynt hwy nac i'r cyhoedd yn sgil hynny. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu cludiant fel y bo'n ofynnol yn ôl y gyfraith, gyda'r disgresiwn i gynnig mwy.

8.2 O safbwynt yr oedran cymwys i blant ysgolion cynradd gael cludiant am ddim, byddai'r terfyn pellter statudol yn parhau i newid o ddwy filltir i dair pan fyddai plentyn yn wyth oed, a byddai'n anghyson â system ysgol sydd wedi symud tuag at greu ysgolion cynradd unedig yn lle ysgolion babanod ac ysgolion iau ar wahân. Byddai rhieni mewn awdurdodau sy'n cadw at y lefel statudol o hawl yn fwy tebygol o fynd â'u plant i'r ysgol mewn car gan gyfrannu at y tagfeydd ar y ffyrdd. Dros gyfnod o amser, gallai awdurdodau sy'n gweithredu polisïau sy'n fwy hael nag sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith gwtogi ar y cludiant y maent yn ei gynnig hyd at yr isafswm statudol neu at yr isafswm statudol. Ni fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu atal hyn. Ni allai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau ychwaith bod y cymorth tuag at gludiant ar gael i bobl ifanc yn y sector ôl-16.

8.3 Yn lleol, byddai gallu awdurdodau i wneud newidiadau gweithredol i'r trefniadau cludo yn cael ei gyfyngu'n sylweddol petai cyrff llywodraethu ysgolion yn amharod i newid amserau sesiynau ysgolion. Daeth adolygiad gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r casgliad y gallai mân newidiadau i amserau sesiynau ganiatáu i'r un bws gael ei ddefnyddio i wneud dwy daith gan felly wneud arbedion o ran y gost.

## Opsiwn 2 – Darparu Canllawiau ac Adnoddau Ychwanegol

8.4 Gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru adeiladu ar y trefniadau presennol drwy gynyddu'r cyllid ar gyfer cludiant, drwy ariannu mentrau a arweiniai at godi safonau a chydweithio, a thrwy ddarparu canllawiau anstatudol a hybu arferion da. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi dyrannu £1m y flwyddyn ar gyfer y cyfnod rhwng 2007-08 a 2009-10 ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn cefnogi awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda'i gilydd ar faterion cyffredin a fydd yn codi safonau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau anstatudol newydd ar gyfer awdurdodau sy'n esbonio'r gyfraith ac sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad. Bydd yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad dalu'r mân gostau gweinyddol a gwyd o gyhoeddi canllawiau o'r fath o bryd i'w gilydd ond y maent yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a gallant arwain at newidiadau yn ymarferol. Ond ni all hynny, nac adnoddau ychwanegol, ddisodli'r pwynt sylfaenol mai'r gyfraith sy'n pennu dyletswyddau awdurdodau lleol ac na all Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu ar y safonau cenedlaethol ar gyfer yr hawl i deithio y mae grwpiau penodol o blant a phobl ifanc yn elwa arnynt.

## Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur Cynulliad

8.5 Byddai costau ynghlwm wrth gyflwyno Mesur Cynulliad petai'n gwneud yr hawl i blant a phobl ifanc gael cludiant yn fwy hael na'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith bresennol. Yr awdurdodau lleol fyddai'n gyfrifol am y costau a byddai'n rhaid iddynt hwy gael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â'r ymrwymiad a wnaed i ariannu unrhyw gyfrifoldebau newydd neu ychwanegol a osodir ar lywodraeth leol. Byddai costau refeniw ychwanegol ynghlwm hefyd i Lywodraeth y Cynulliad, yn arbennig mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad wrth Deithio.

8.6 Cynigir y bydd y Mesur yn darparu cludiant am ddim i blant ysgolion cynradd (gan ddiystyru a ydynt yn hŷn neu'n iau nag wyth oed) os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf. Byddai lefel newydd yr hawl yn dod i rym o 1 Medi 2009 ymlaen a byddai'n parhau am gyfnod amhenodol oni châi ei newid. Amcangyfrifir y byddai gan ryw 7,700 yn rhagor o blant ar draws Cymru yr hawl gyfreithiol i gludiant am ddim. Amcangyfrifir y byddai cost darparu'r hawl hon yn £3.7m yn 2009-10 gan godi i £6.6m yn 2010-11 (yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gostau awdurdodau lleol, a'r data ar y pellter gyrru rhwng y cartref a'r ysgol a gafwyd o ddatganiadau CYBLD Ionawr 2006 gyda chwyddiant wedi'i gynnwys yn unol â chwyddwyr cynnyrch mewnwladol crynswth Trysorlys Ei Mawrhydi). Adolygwyd y ffigurau hyn yn ddiweddar yn erbyn y data a'r costau diweddaraf a'r farn yw eu bod yn rhai cadarn.

8.7 Bydd goblygiadau ariannol sylweddol i awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad hefyd o ganlyniad i'r darpariaethau newydd ynghylch yr hawl i deithio i ysgolion crefyddol eu natur. Bydd angen mwy o waith a gwybodaeth fanylach er mwyn asesu'n llawn y costau a fydd yn deillio o hyn ond, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion enwadol ac sy'n byw ddwy filltir neu ragor (cynradd) a thair milltir neu ragor (uwchradd) o'u hysgol – oddeutu 13,300, gall y gost ychwanegol i Lywodraeth y Cynulliad fod hyd at £13m y flwyddyn. Mae'r amcangyfrif cychwynnol hwn yn adlewyrchu'r newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth ac yn hepgor y rheini a fyddai eisoes yn elwa ar y cynnydd yn yr hawl gyffredinol ar gyfer ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer hyn ac mae angen ystyried pryd y dylai'r darpariaethau hyn gael eu gweithredu.

8.8 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn credu y bydd cynnwys yn adran 2 (dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr o fewn eu hardal) yr angen *i ystyried anghenion teithio dysgwyr y mae eu rhieni am iddynt dderbyn addysg mewn ysgol grefyddol ei natur, neu os ydynt yn oedolion, eu bod yn dymuno hynny iddynt hwy eu hunain* yn arwain at faich ariannol ychwanegol sylweddol ar awdurdodau lleol. Dylai fod gan awdurdodau lleol yr wybodaeth hon eisoes gan fod y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni fynegi dewis ynglŷn â pha ysgol y maent am i'w plentyn ei mynychu ac mae Adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud hi'n ddyletswydd gyffredinol ar i awdurdodau lleol ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni cyn belled ag y bo hynny'n cydweddu â darpariaeth effeithiol o ran addysg a hyfforddiant ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

8.9 Mae'r newid i adran 3(8)(a) yn golygu nad yw llwybrau ond yn ddiogel i'w cerdded lle bo troetffordd neu lwybr troed ar gael ac effaith hynny fydd lleihau nifer y llwybrau y tybir eu bod 'ar gael'. Golyga hyn y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau cludiant ar gyfer nifer mwy o blant sy'n byw o fewn y pellteroedd statudol. Mae'n amlwg y bydd goblygiadau ariannol yn deillio o hyn i awdurdodau lleol ac, yn ei thro, i Lywodraeth y Cynulliad. Nid oes gwybodaeth ar gael i ganfod y costau ychwanegol hyn – bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol adolygu ei lwybrau perthnasol ac asesu canlyniadau ariannol ychwanegol pob un os ystyrir nad ydynt 'ar gael'.

8.10 Ni ddylai fod goblygiadau ariannol ychwanegol i'r gofyniad y dylai awdurdodau lleol gynnal asesiadau risg ar yr adeg y gwneir siwrneiau. Dylai hyn fod yn digwydd eisoes.

8.11 Ar wahân i'r uchod, nid yw'r Mesur yn newid yn sylweddol yr hawl sydd ar hyn o bryd i blant ysgolion uwchradd gael cludiant i'r ysgol. Mae'n cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth i roi hawl i blant sy'n derbyn addysg feithrin, pŵer i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n dilyn cyrsiau dysgu ôl-16, a phŵer i Weinidogion Cymru newid y darpariaethau ar gyfer plant ysgolion cynradd a phlant ysgolion uwchradd. Fe all y bydd goblygiadau o ran cost yn deillio o is-ddeddfwriaeth ganlynol ac o bosibl sefydliadau addysg bellach a darparwyr ôl-16, yn dibynnu ar y math o hawl a wneir. Byddai'n rhaid i gynnydd yn y gost yn deillio o ddeddfwriaeth o'r fath gael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a byddai'n destun asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân. Byddai'r rheoliadau

yn cael eu gwneud yn unol â gweithdrefn gadarnhaol gan ganiatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu arnynt.

8.12 Mae gan awdurdodau lleol bolisïau, strategaethau a chynlluniau clir eisoes mewn perthynas ag addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a chludiant cysylltiedig. Nid yw'r gofyniad yn y Mesur i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur, hybu mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o arwain at faich na chostau ychwanegol. Ni ddisgwylir ychwaith i'r ddyletswydd i hybu dulliau cynaliadwy o deithio roi beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol – yn wir, disgwylir y bydd iddynt fanteision.

8.13 Ni ddylai darpariaethau yn y Mesur i annog cydweithio rhwng awdurdodau, ac â chyrff llywodraethu, arwain at gostau ac mae'n bosibl y gallai fod iddynt fanteision. Gallai'r pŵer i awdurdodau lleol newid amserau sesiynau ysgolion arwain at arbedion o ran cost gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol.

8.14 Mae'r Mesur yn annhebygol o olygu y bydd costau nac arbedion i ysgolion oherwydd nid ysgolion sy'n gyfrifol am y gost o ddarparu cludiant i ddisgyblion i'r cartref ac oddi yno. Bydd rhieni y bydd eu plant yn ennill yr hawl i gael cludiant am ddim yn arbed arian os buont yn mynd â'u plant i'r ysgol mewn car at y diben hwnnw yn unig yn hytrach nag ar eu ffordd i'r gwaith neu i fan arall.

8.15 Dylai'r lefel uwch o hawl ar gyfer plant ysgolion cynradd a'r hawl newydd yn seiliedig ar ysgolion crefyddol eu natur arwain at rywfaint o gynnydd yn lefel busnes y diwydiant bysiau. Gan mwyaf, bydd cludiant o'r fath eisoes wedi'i drefnu gan yr awdurdodau lleol drwy ddefnyddio eu pwerau dewisol a bydd y cyllid ychwanegol ar gael drwy'r setliad refeniw ar gyfer llywodraeth leol. Bydd yr union effaith yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Ni fydd y Mesur yn newid y ddeddfwriaeth sy'n gymwys i'r diwydiant bysiau ac felly ni fydd yn effeithio ar gostau i'r cwmnïau bysiau.

8.16 Ni ragwelir y bydd y Mesur yn effeithio ar y sector gwirfoddol.

8.17 Bydd y gofyniad i Weinidogion Cymru wneud cod ymddygiad wrth deithio yn arwain at gostau er mwyn sefydlu'r cod, ac maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

8.18 Bydd costau rheolaidd hefyd yn gysylltiedig â'r cod ymddygiad wrth deithio ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau lleol fel ei gilydd. Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r bobl berthnasol cyn diwygio'r cod y bydd yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ei ariannu yn ôl yr angen. Hefyd, bydd angen i awdurdodau lleol hyrwyddo'r cod yn rheolaidd a bydd angen iddynt sicrhau ei fod o fewn cyrraedd hawdd i bawb sy'n berthnasol, gan gynnwys dysgwyr eraill o bob oed, eu rhieni (lle bo'n briodol) a chwmnïau cludiant.

## Crynodeb

8.13 Opsiwn 3 yw'r unig opsiwn a all fynd i'r afael yn llawn â'r amcanion polisi drwy ddarparu fframwaith statudol newydd i Gymru sy'n symleiddio ac yn cydgrynhoi'r gyfraith bresennol, sy'n gwella'r hawl i blant ysgolion cynradd, sy'n cyflwyno hawl newydd mewn perthynas ag ysgolion crefyddol eu natur ac sy'n gyfrwng i ddarparu

hawl i grwpiau eraill o blant a phobl ifanc megis dysgwyr ôl-16 a phlant sy’n derbyn addysg feithrin. Byddai hefyd yn cryfhau diogelwch drwy sefydlu safonau cyson o ran ymddygiad a disgyblaeth ar gyfer y rheini sy’n teithio i’w mannau dysgu ac oddi yno.

## 9. Asesu’r Gystadleuaeth

9.1 Ni chaiff y Mesur effaith negyddol ar gystadleuaeth.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Caiff y Mesur ei fonitro drwy nodi’r newidiadau i’r patrymau teithio a gofnodir gan yr Arolwg Teithio Cenedlaethol. Ceir adborth hefyd o waith achos a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gwaith paratoadol yr ymgymerir ag ef er mwyn gwneud rheoliadau.

**ATODIAD 1**

# Nodiadau Esboniadol

1. Nodiadau Esboniadol i'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Ebrill 2008 ac fel y'u diwygiwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2 yw'r rhain. Fe'u paratowyd ar y cyd gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ac Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur ond nid ydynt yn rhan ohono.

2. Mae'r Mesur yn disodli darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn adrannau 509, 509AA, 509AB, 509AC and 509A o Ddeddf Addysg 1996 mewn perthynas â darparu cludiant ar gyfer plant ac eraill sy'n cael addysg a hyfforddiant mewn ysgolion a sefydliadau eraill.

## Sylwebaeth ar Adrannau

### Adran 1 – Y prif dermau a ddefnyddir yn y Mesur hwn

3. Mae adran 1 yn diffinio'r prif dermau a ddefnyddir yn y Mesur.

4. Gall 'trefniadau teithio' gynnwys darparu cludiant, darparu hebryngwyr i hebrwng plant, talu'r cyfan neu ran o dreuliau teithio, a thalu lwfansau.

5. Personau sy'n cael addysg neu hyfforddiant yw 'dysgwyr' o fewn cwmpas y Mesur.

6. Diffinnir 'mannau perthnasol' fel ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, ysgolion annibynnol a enwir mewn datganiadau o anghenion addysgol arbennig, ysgolion arbennig nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, mannau lle y darperir addysg feithrin gan awdurdod lleol neu lle y'i cyllidir gan yr awdurdod, unrhyw fan a gyllidir gan Weinidogion Cymru i ddarparu addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16 (megis addysg bellach mewn sefydliad addysg uwch neu ddysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw fan lle y mae dysgwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith. Mae'r diffiniad hefyd yn cwmpasu trefniadau a wneir ar gyfer disgyblion ag anghenion eithriadol y mae eu haddysg wedi ei threfnu gan awdurdod lleol mewn man ac eithrio ysgol a sefydliadau lle y mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau addysg a hyfforddiant a llety byrddio ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag anawsterau dysgu.

### Adran 2 – Dyletswydd i asesu anghenion teithio dysgwyr

7. Mae adran 2 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed sy'n cael addysg neu hyfforddiant, neu ddysgwyr sydd wedi cyrraedd 19 oed, sy'n parhau i fynychu'r cwrs addysg a hyfforddiant y bu

iddynt gychwyn arno pan oeddent o dan 19 oed, ac sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod. Anghenion dysgwyr am drefniadau teithio addas bob dydd rhwng y cartref ac ysgolion neu fannau eraill lle y maent yn cael addysg a hyfforddiant (ac a elwir yn 'fannau perthnasol') yw 'anghenion teithio dysgwyr'. Yn ymarferol, golyga hyn fod disgyblion o oedran ysgol gorfodol, disgyblion o oedran chweched dosbarth, a phlant o dan oedran ysgol gorfodol sy'n cael addysg feithrin a gyllidir gan yr awdurdod, yn dod o fewn cwmpas yr asesiad y mae adran 2 yn ei wneud yn ofynnol. O dan is-adran (1)(c) gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau'n pennu dysgwyr eraill os dyna'u dymuniad; felly gallai cwmpas yr asesiad gael ei newid. Bydd yr asesiad yn cynnwys dysgwyr sy'n teithio i fannau perthnasol yn ardaloedd awdurdodau eraill. Rhaid i awdurdod wneud yr asesiad hwn ym mhob blwyddyn academaidd er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Bydd yr asesiad yn rhoi i awdurdod lleol drosolwg o anghenion teithio dysgwyr a bydd yr wybodaeth honno'n helpu'r awdurdod i wneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr mewn modd effeithlon ac effeithiol.

8. Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu'r mathau o weithgareddau y byddai awdurdod lleol eisoes yn ymgymryd â hwy i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd). Er nad yw'r Ddeddf honno'n rhoi dyletswydd benodol ar awdurdod lleol i asesu anghenion teithio plant mewn addysg oedran statudol, bydd awdurdod effeithiol yn ystyried anghenion teithio dysgwyr er mwyn gwneud trefniadau o dan adran 509(1) o Ddeddf Addysg 1996 ar gyfer cludo plant o oedran ysgol gorfodol. Ar gyfer dysgwyr o oedran chweched dosbarth, bydd awdurdod eisoes yn casglu ac yn asesu gwybodaeth er mwyn paratoi datganiad polisi cludiant o dan adran 509AA.

9. Mae'r asesiad i gwmpasu anghenion teithio dysgwr sy'n mynychu 'mannau perthnasol' gwahanol ar ddyddiau gwahanol. Pwrpas hyn yw i gymryd i ystyriaeth y ffaith bod rhai dysgwyr yn mynychu ysgol wahanol neu sefydliad addysg bellach gwahanol am ran o'u haddysg neu o'u hyfforddiant, neu'n ymgymryd â phrofiad gwaith yn rhywle arall, neu wedi ymrestru ar gwrs dysgu seiliedig ar waith. Fodd bynnag, fel y mae adran 5 yn egluro, o ran mannau o'r fath, nid yw'r asesiad yn ymwneud ond â theithio i'r cartref ac o'r cartref ac nid yw'n ymwneud â theithio rhwng mannau yn ystod y dydd. Nid yw'r asesiad yn ymwneud ag anghenion teithio ar gyfer ymweliadau preswyl neu dripiau diwrnod a drefnir gan ysgolion neu sefydliadau addysg bellach, ac nid yw ychwaith yn ofynnol i awdurdodau ystyried gweithgareddau allgyrsiol, clybiau brecwast neu glybiau ar ôl ysgol (ond cânt ddewis gwneud hynny os dyna'u dymuniad).

10. Wrth wneud asesiad, mae'n ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i faterion a restrir yn is-adran (4)(a) i (f). Anghenion dysgwyr anabl neu ddysgwyr ag anawsterau dysgu; unrhyw anghenion penodol sydd gan ddysgwyr sy'n blant ac sy'n 'derbyn gofal' neu a fu'n derbyn gofal gynt gan awdurdod lleol; dysgwyr sydd am dderbyn eu haddysg mewn ysgol grefyddol ei natur, neu rieni sydd am i'w plentyn dderbyn ei addysg mewn ysgol grefyddol ei natur; oed y dysgwr a natur y ffordd y disgwylir iddo ei dilyn rhwng y cartref a'r mannau lle y mae'n cael addysg neu hyfforddiant yw'r materion hyn.

**Adran 3 – Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau cludo**

11. Mae adran 3 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau cludo ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol mewn amgylchiadau penodedig ac yn ddarostyngedig i amodau penodedig. Nodir yr amgylchiadau a'r amodau yn y tabl ar ôl is-adran (2). Mae'r adran yn darparu system o hawl i gludiant am ddim yn dibynnu p'un ai addysg gynradd ai addysg uwchradd y mae plant yn ei chael ac a ydynt yn byw y pellteroedd penodedig neu'n bellach o'r mannau lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant. Mae'r dull hwn o benderfynu hawl yn debyg i'r system a luniwyd wrth roi ar waith gyda'i gilydd adrannau 444 a 509 o Ddeddf Addysg 1996.

12. Mae is-adran (1) yn darparu bod yr adran yn gymwys i blant o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod os yw'r amgylchiadau a nodir yng ngholofn 1 y tabl yn gymwys i'r plentyn ac os bodlonir yr amodau a geir yng ngholofn 2.

13. Mae is-adran (2) yn nodi'r brif ddyletswydd sydd ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau cludo addas i hwyluso'r ffordd i'r plentyn y mae'r adran yn gymwys iddo fynychu bob dydd y mannau perthnasol lle y mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant. Hwylusir y ffordd i'r plentyn fynychu'r mannau hynny os gwneir trefniadau i'r plentyn deithio o'i gartref i'r man lle y mae'n cael addysg neu hyfforddiant ac yn ôl adref.

14. Mae'r tabl ar ôl is-adran (2) yn nodi'r amgylchiadau a'r amodau sy'n arwain at yr hawl i gael trefniadau cludo am ddim.

15. Bydd gan blant sy'n cael addysg gynradd yr hawl i gludiant am ddim os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy o'r ysgol a gynhelir, o'r uned cyfeirio disgyblion, neu o'r ysgol arbennig nas cynhelir lle y maent yn ddisgyblion, onid yw'r awdurdod wedi trefnu i'r plentyn ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas yn nes at gartref y plentyn neu wedi trefnu i'r plentyn fyrddio yn yr ysgol neu'n agos ati. Pan fo gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi ysgol annibynnol, os bydd yr ysgol honno ddwy filltir neu fwy o gartref y plentyn, bydd yn rhaid i awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim onid yw wedi trefnu i'r plentyn ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas yn nes at ei gartref, neu wedi trefnu i'r plentyn fyrddio yn yr ysgol neu'n agos ati.

16. Darperir hawl debyg i blant sy'n cael addysg uwchradd, ond gwneir hynny yn yr achos hwn os ydynt yn byw dair milltir neu fwy o'r ysgol a gynhelir, o'r uned cyfeirio disgyblion, o'r ysgol arbennig nas cynhelir neu o'r ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig lle y maent yn ddisgyblion. Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu cludiant am ddim yn gymwys pan yw'r awdurdod lleol wedi trefnu i'r plentyn ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas sy'n nes at ei gartref, neu pan yw'r awdurdod wedi trefnu i'r plentyn fyrddio yn yr ysgol neu'n agos ati. Mae'r hawl yn cynnwys cludiant i unrhyw blentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu sefydliad addysg bellach fel myfyriwr llawn-amser os yw'r sefydliad dair milltir neu fwy o'i gartref ac os nad yw'r awdurdod lleol wedi trefnu i'r plentyn fynychu sefydliad addas yn nes at ei gartref. Mae'r hawl hefyd yn cynnwys teithio rhwng y cartref a man

perthnasol ac eithrio'r man lle y mae plentyn yn ddisgybl cofrestredig. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod rhai plant yn mynychu mannau gwahanol ar ddyddiau gwahanol, a byddai, er enghraifft, yn cwmpasu lleoliadau profiad gwaith neu fynychu ysgol wahanol neu sefydliad addysg bellach gwahanol ar gyfer cyrsiau penodol. Fodd bynnag, nid yw'r hawl ond yn cynnwys teithio rhwng y cartref a mannau perthnasol ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae unrhyw drefniadau ar gyfer teithio yn ystod y dydd y tu allan i gwmpas y ddyletswydd sydd ar awdurdod lleol (gweler adran 5).

17. Mae'r un meini prawf oed a phellter yn gymwys i blant sy'n 'derbyn gofal', ond nid yw mynychu'r sefydliad agosaf i'w cartref sy'n sefydliad addas yn gymhwysedd. Yr awdurdod lleol y mae plentyn yn derbyn gofal ganddo fydd i benderfynu ble y dylai plentyn fynd a gallai'r man hwnnw fod yn ysgol ac eithrio'r ysgol agosaf sy'n addas oherwydd, er enghraifft, bod sicrhau parhad yn addysg y plentyn neu yng nghysylltiad y plentyn â brodyr a chwiorydd a ffrindiau yn flaenoriaeth.

18. Mae is-adran (3) yn gwahardd awdurdod rhag codi tâl am drefniadau cludo y mae'n ofynnol iddo eu gwneud ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol o dan yr adran hon (ac eithrio mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ac yn yr achos hwnnw gall adennill costau oddi wrth awdurdod arall o dan adran 18).

19. Mae is-adran (4) yn pennu y caiff trefniadau cludo a wneir o dan yr adran gynnwys darparu cludiant neu dalu'r cyfan, ond nid rhan, o dreuliau teithio plentyn. Golyga hyn y gallai awdurdod gyflawni'r ddyletswydd yn is-adran (2) drwy drefnu gyda chontractwr bysiau neu dacsi wasanaeth bysiau, a darparu pàs i'w ddefnyddio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ad-dalu treuliau teithio rhieni neu ddysgwyr.

20. Mae isadrannau (5) i (9) yn diffinio a yw trefniadau'n 'addas', a yw ysgol neu gyfleuster addysg arall yn gwneud darpariaeth 'addas', ac a oes llwybr 'ar gael'.

21. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau cludo fod, o fewn rheswm, yn rhydd o straen, iddynt beidio â chymryd amser afresymol o hir, ac iddynt fod yn ddiogel.

22. Mae is-adran (6) yn diffinio addasrwydd addysg neu hyfforddiant at ddiben yr adran hon drwy gyfeirio at oed plentyn, ei allu a'i ddoniau, ac at unrhyw anawsterau dysgu. Nid oes a wnelo dewis iaith, neu famiaith, na chredo neu argyhoeddiad crefyddol y plentyn neu'r rhiant, ddim ag addasrwydd ysgol at ddiben yr adran hon.

23. Mae is-adran (7) yn pennu nad yw ysgol yn addas os nad yw'n darparu addysg grefyddol ei natur os yw'n ddymuniad gan y rhieni bod eu plentyn yn derbyn addysg o'r fath.

24. Mae is-adran (8) yn pennu bod y pellteroedd yn y tabl i'w mesur ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael. Ymdrinnir ag a oes llwybr ar gael yn is-adran (9) sy'n nodi'r amgylchiadau pan ellir disgwyl i blentyn gerdded i'r ysgol. Os nad yw'r amgylchiadau hyn yn gymwys, yna ni ellir disgwyl i blentyn gerdded i'r ysgol

hyd yn oed pan fydd y pellter rhwng ei gartref a'r ysgol yn llai na'r terfyn pellter sy'n gymwys i'w oed fel a nodir yn y tabl. Yr amgylchiadau yw ei bod yn ddiogel i blentyn gerdded ar ei ben ei hun neu, pan fo oed y plentyn yn gwneud hynny'n ofynnol, gydag oedolyn yn ei hebrwng. Os nad yw'r amgylchiadau hyn yn gymwys, mae is-adrannau (1) a (2) yn darparu hawl i drefniadau teithio am ddim onid yw awdurdod wedi gwneud trefniadau i addysgu'r plentyn mewn ysgol addas amgen yn nes at gartref y plentyn. Mae is-adran (10) hefyd yn pennu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiadau risg yn ystod y cyfnodau hynny pryd y byddai plant yn teithio i'r ysgol ac oddi yno.

25. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-adran (10) yn pennu'r amgylchiadau a'r amodau pan fyddai gan blant o oedran ysgol gorfodol hawl i gludiant am ddim. Caiff rheoliadau ddiwygio'r tabl neu is-adrannau (6), (7) ac (8) neu gofnodion yn y tabl. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru newid y meini prawf pellter ac oed sy'n penderfynu cymhwystra a darparu ar gyfer awdurdodau lleol fwy o ddisgresiwn neu lai i weithredu eu polisïau cludiant eu hunain. Byddai unrhyw reoliadau a wneid o dan y ddarpariaeth hon yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a byddent yn ddarostyngedig i asesiad effaith rheoleiddiol ac i graffu arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Adran 4 – Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio eraill**

26. Mae adran 4 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol os yw'r awdurdod o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn hwyluso'r ffordd i blentyn fynychu bob dydd y man perthnasol lle y mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant.

27. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau o dan yr adran hon fod yn ddi-dâl (ac eithrio mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ac yn yr achos hwnnw caiff yr awdurdod adennill costau oddi wrth awdurdod arall o dan adran 18). Ni chaniateir gan is-adran (4) dalu rhan o dreuliau teithio dysgwr (dim ond y gost lawn y caniateir ei thalu).

28. Wrth ystyried a yw trefniadau teithio o dan yr adran hon yn addas, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod roi sylw i asesiad o anghenion yr ymgymerir ag ef o dan adran 2(2), y trefniadau cludo y mae'n ddyletswydd arno eu gwneud o dan adran 3, oed y plentyn, unrhyw anabledd neu anhawster dysgu a natur y ffordd. Rhaid i drefniadau, yn rhinwedd is-adran (6), fod yn ddiogel, peidio â chymryd amser afresymol o hir, a rhaid iddynt beidio â pheri lefelau afresymol o straen.

29. Rhaid i awdurdod gael ei fodloni hefyd fod angen y trefniadau. Wrth ystyried hyn, mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried yr un ffactorau ag a geir yn is-adran (5) ond mae'n caniatáu iddo hefyd ystyried a yw plentyn yn mynychu'r sefydliad addysgol sydd agosaf at ei gartref ac sy'n sefydliad addas. Mae hyn yn gwneud y berthynas rhwng adrannau 3 a 4 yn glir. O dan is-adrannau (7) ac (8) nid oes angen i awdurdod lleol ystyried bod angen trefniadau teithio os nad yw plentyn yn mynychu'r ysgol agosaf sy'n addas (a bod trefniadau wedi eu gwneud i'r plentyn fynychu ysgol sy'n nes at ei gartref

ac sy'n addas). Mae is-adran (8)(a) yn ei gwneud yn glir fodd bynnag nad yw hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Ni all y cwestiwn a yw plentyn sy'n derbyn gofal yn mynychu'r ysgol agosaf sy'n addas fod yn ffactor i'r awdurdod lleol ei ystyried wrth benderfynu a yw trefniadau teithio'n angenrheidiol.

30. Efallai y bydd awdurdod o'r farn bod angen gwneud trefniadau o dan yr adran hon ar gyfer plentyn nad oes ganddo hawl i gludiant am ddim o dan adran 3 oherwydd amgylchiadau arbennig y plentyn hwnnw. Neu efallai y bydd awdurdod o'r farn bod angen gwneud trefniadau o dan yr adran hon yn ychwanegol at ddarparu cludiant fel sy'n ofynnol o dan adran 3; er enghraifft, bod angen trefnu hebryngwr neu offer ar gyfer plentyn anabl. Nid oes rhaid i awdurdod ddarparu cludiant. Gallai, er enghraifft, ddarparu pàs bws ar gyfer dysgwr neu drefnu i blant gerdded gyda hebryngwr i'r man perthnasol. Mae'r adran hon hefyd yn darparu sail i awdurdodau lleol gefnogi teithio gan blant a chanddynt unrhyw anghenion penodol p'un a yw'r anghenion yn deillio o anhawster dysgu, o anabledd neu o unrhyw ffactor arall sy'n gwneud trefniadau teithio penodol yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r ffordd i blentyn fynychu man perthnasol.

**Adran 5 – Terfynau dyletswydd teithio gan ddysgwyr**

31. Mae'r adran hon yn gosod terfynau ar ddyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol gan adrannau 2, 3 a 4 fel nad ydynt yn ymestyn i gynnwys teithio yn ystod y dydd neu deithio at ddibenion ac eithrio mynychu man perthnasol i gael addysg a hyfforddiant.

32. Nid yw'n ofynnol bod awdurdod lleol yn ystyried yr anghenion teithio a allai godi yn ystod y dydd. Mae a wnelo'r dyletswyddau a nodir gan y Mesur i wneud trefniadau teithio â theithio o'r cartref i'r ysgol (neu fan perthnasol arall) ac yn ôl adref.

33. Golyga hyn nad oes a wnelo'r dyletswyddau a roddir gan y Mesur ond â theithio o'r cartref i'r ysgol (neu fan perthnasol arall) ac yn ôl adref ac nid ydynt yn gymwys ond i deithio i fannau a restrir yn adran 1(4) ac oddi yno. Mae tripiau ysgol ac ymweliadau preswyl y tu allan i gwmpas y dyletswyddau.

**Adran 6 – Pŵer awdurdodau lleol i wneud trefniadau teithio i ddysgwyr**

34. Mae'r adran hon yn rhoi i awdurdod lleol bŵer yn ôl ei ddisgresiwn i wneud unrhyw drefniant y mae'n gweld yn dda ei wneud i hwyluso'r ffordd i ddysgwyr deithio i fan lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno. Mae'r pŵer yn gymwys mewn perthynas â dysgwr sy'n byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod. Gallai hyn gynnwys cludiant i ysgolion ac eithrio'r ysgol agosaf sy'n addas - er enghraifft gallai gynnwys cludiant i ysgolion sydd, neu sydd heb fod, yn grefyddol eu natur neu i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg mewn achosion pan nad yw'r ysgol agosaf sy'n addas wedi bodloni dymuniadau rhieni o ran y materion hyn. Gallai trefniant gynnwys bod awdurdod lleol yn talu'r cyfan neu ran o dreuliau teithio dysgwr.

35. Yn rhinwedd is-adrannau (3) a (4) gellir codi tâl am y trefniadau hyn. Mewn perthynas â dysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol, nid oes cyfyngiad ar godi tâl. Mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol, os codir tâl rhaid gwneud hynny'n unol ag adrannau 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygir gan adran 22).

36. Mae'r pŵer i godi tâl neu i dalu'r cyfan neu ran o dreuliau teithio dysgwr yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol i roi ar waith drefniadau teithio sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol a geir yn adrannau 3 a 4.

**Adran 7 – Trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16**

37. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau o dan yr adran hon ynghylch trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n byw yng Nghymru ac sy'n mynychu cyrsiau yng Nghymru neu yn rhywle arall lle y cyllidir yr addysg neu'r hyfforddiant gan Weinidogion Cymru.

38. Gallai'r rheoliadau wneud darpariaeth debyg i'r ddarpariaeth a wneir yn y Mesur mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol. Gellid gwneud darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol, neu'n caniatáu, i Weinidogion Cymru, i awdurdodau lleol neu i sefydliadau addysg bellach wneud trefniadau teithio, ac a fyddai'n pennu'r math o faterion i'w hystyried wrth wneud trefniadau. Gallai'r rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch codi tâl, gallent fynnu bod cydweithredu â'r person sy'n gysylltiedig â'r trefniadau'n digwydd, a gallent wneud darpariaeth ynghylch gorfodi'r cod ymddygiad wrth deithio a wneir o dan adran 12 ac sy'n nodi safonau ymddygiad i'w harddel wrth deithio.

**Adran 8 – Trefniadau teithio i fannau lle y darperir addysg feithrin ac oddi yno**

39. Pŵer gwneud rheoliadau yw adran 8 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch trefniadau teithio i blant oed meithrin. O dan y pŵer hwn gallai Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau teithio i blant o dan oedran ysgol gorfodol sydd mewn addysg feithrin. Mae is-adran (2) yn disgrifio cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau. Gallai'r rheoliadau wneud darpariaeth debyg i'r ddarpariaeth a wneir yn y Mesur mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol a gallent ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu gwybodaeth a chymorth y gallai fod yn rhesymol bod ar awdurdod lleol eu hangen.

**Adran 9 – Trefniadau teithio i ddysgwyr a'r rheini'n drefniadau nad ydynt i ffafrio mathau penodol o addysg neu hyfforddiant**

40. Mae adran 9 yn gwahardd y trefniadau teithio a wneir o dan adrannau 3, 4 a 6 rhag gwahaniaethu rhwng amryw gategorïau o ddysgwyr. Gwelir y categorïau yn y tabl. Rhaid peidio â thrin plant o oedran ysgol gorfodol sydd mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir yn llai ffafriol na phlant yr un oed mewn ysgolion a gynhelir. Rhaid peidio â thrin dysgwyr eraill sy'n cael addysg lawn-amser neu hyfforddiant llawnamser mewn sefydliadau nad ydynt yn

ysgolion a gynhelir yn llai ffafriol na dysgwyr yr un oed mewn ysgolion a gynhelir. Yn yr un modd ni ddylid gwahaniaethu rhwng y rhai sydd yr un oed a chanddynt anawsterau dysgu neu anabledd neu sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sy'n mynychu sefydliadau ac eithrio ysgolion a gynhelir, a'r rhai sy'n mynychu ysgolion a gynhelir. Mae'n diogelu'r egwyddor bod dysgwyr sy'n elwa o drefniadau teithio yn cael eu trin yn deg.

**Adran 10 – Hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg**

41. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol ac ar Weinidogion Cymru, pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur hwn, i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Adran 11 – Dulliau teithio cynaliadwy**

42. Mae adran 11 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol ac ar Weinidogion Cymru i hybu dulliau teithio cynaliadwy pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur. Golyga hyn y dylai awdurdod lleol ystyried cynaliadwyedd pan fydd yn asesu anghenion teithio dysgwyr o dan adran 2(2). Rhaid ystyried a hybu cynaliadwyedd hefyd pan wneir trefniadau teithio gan awdurdod lleol neu gan Weinidogion Cymru. Er enghraifft, gallai hyn olygu annog dysgwyr i deithio ar fws yn hytrach nag mewn car.

43. Mae is-adran (2) yn diffinio 'dulliau teithio cynaliadwy' fel dulliau y mae'r awdurdod neu Weinidogion Cymru o'r farn y gallant wella llesiant corfforol y rhai sy'n eu defnyddio a llesiant/neu lesiant amgylchedd ardal gyfan yr awdurdod neu ran ohoni, neu Gymru gyfan neu ran ohoni (yn achos Gweinidogion Cymru).

**Adran 12 – Cod ymddygiad wrth deithio**

44. Mae adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio ac adolygu o bryd i'w gilydd god ymddygiad wrth deithio sy'n nodi'r safonau ymddygiad y mynnir bod dysgwyr yn eu harddel wrth deithio i'r man lle y maent yn cael eu haddysgu ac oddi yno.

45. Bydd y Cod yn gymwys i bob dysgwr o dan 19 oed yn ogystal ag i'r sawl sydd wedi cyrraedd 19 oed ac sy'n parhau i fynychu cwrs addysg neu hyfforddiant y bu iddo gychwyn arno pan oedd o dan 19 oed (is-adran (3)). Gall Gweinidogion Cymru, o dan is-adran (3)(c), wneud rheoliadau sy'n pennu dysgwyr eraill.

46. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cod ac mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori cyn gwneud y cod neu ei ddiwygio.

**Adran 13 – Gorfodi cod ymddygiad wrth deithio: dysgwyr mewn ysgolion perthnasol**

47. Mae adran 13 yn diwygio adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Mae adran 89 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol benderfynu

beth fydd polisi ymddygiad ysgol. Mae is-adran (2) o’r adran honno’n ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ddilyn datganiad neu ganllawiau corff llywodraethu ar ddisgyblaeth ysgol pan fydd yn penderfynu ar fesurau ar gyfer ymddygiad plant. Mae is-adran (2A) newydd o adran 89 a fewnosodir gan yr adran hon yn rhoi dyletswydd ar benaethiaid i benderfynu ar fesurau disgyblaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion mewn ysgolion perthnasol yng Nghymru gydymffurfio â’r cod ymddygiad wrth deithio a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 o’r Mesur.

48. Mae is-adran (3A) newydd o adran 89 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i’r pennaeth benderfynu pa safon ymddygiad sy’n dderbyniol mewn ysgol i’r graddau nad yw’n cael ei phenderfynu gan y corff llywodraethu neu gan Weinidogion Cymru (mewn perthynas â theithio at ddibenion addysg a hyfforddiant). Mae adran 89(5) o Ddeddf 2006 yn caniatáu i bennaeth benderfynu ar fesurau i reoleiddio ymddygiad disgyblion pan nad ydynt ar fangre’r ysgol neu o dan reolaeth aelod o staff yr ysgol neu yn ei ofal. Mae is-adran (6) yn darparu nad yw adran 89(5) yn gymwys o ran Cymru, ond gwneir yr un ddarpariaeth yn is-adran (5A) newydd o adran 89 (ond gyda chyfeiriad at is-adran (2A) newydd o adran 89 a fewnosodir gan yr adran hon).

**Adran 14 – Gorfodi cod ymddygiad wrth deithio: tynnu’n ôl drefniadau teithio**

49. Mae’r adran hon yn caniatáu i awdurdod lleol dynnu’n ôl drefniadau teithio i ddysgwr nad yw’n cydymffurfio â’r cod ymddygiad a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 11. Mae’r adran yn gymwys i bob dysgwr y mae’r awdurdod yn gwneud trefniadau teithio o dan adrannau 3 neu 4 ar ei gyfer. A dibynnu a yw’r plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol berthnasol ai peidio, mae amodau’n gymwys mewn ffordd wahanol.

**Adran 15 – Canllawiau a chyfarwyddiadau**

50. Pan fydd awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yn arfer unrhyw un o’u swyddogaethau o dan y Mesur, mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi ystyriaeth i ganllawiau a ddyroddir o bryd i’w gilydd gan Weinidogion Cymru.

51. At hynny, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau wneud trefniadau teithio i ddysgwyr, neu gydymffurfioâ chyfarwyddyd pan fyddant yn eu gwneud (is-adrannau (2) a (3)). Gall cyfarwyddiadau o’r fath gael eu rhoi i un awdurdod neu fwy neu eu rhoi’n gyffredinol o dan is-adran (4). Mae’r pŵer hwn i roi cyfarwyddyd yn debyg i bŵer a ddarperir gan adrannau 509(1) a 509AA(9) o Ddeddf Addysg 1996. Mae’n caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ar achosion unigol neu ynghylch materion polisi mwy cyffredinol. Caniateir i’r pŵer gael ei arfer ni waeth a yw awdurdod lleol wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau ai peidio. Nid yw’n disodli’r pwerau cyfarwyddo mwy cyffredinol sydd gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 496-497A o Ddeddf Addysg 1996, nac yn effeithio arnynt.

**Adran 16 – Gwybodaeth am drefniadau teithio**

52. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi gwybodaeth ynghylch yr asesiad o dan adran 2, ynghylch y trefniadau a wneir gan yr awdurdod neu gan Weinidogion Cymru ar gyfer teithio gan ddysgwyr ac ynghylch y cod ymddygiad wrth deithio. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi gwybodaeth am ei bolisi cludiant mewn cysylltiad ag ysgolion o dan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999. Mae rheoliad 6 yn y Rheoliadau hynny'n pennu gofynion ynghylch pryd i gyhoeddi'r wybodaeth ac ym mha ddull. Mae adran 509AA o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd ar hyn o bryd i awdurdod lleol gyhoeddi datganiad polisi cludiant bob blwyddyn ar gyfer personau o 'oedran chweched dosbarth'.

53. Mae Atodlenni 1 a 2 i'r Mesur yn diwygio ac yn diddymu adran 509AA fel na fydd yn rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru mwyach gyhoeddi datganiad polisi cludiant ar gyfer dysgwyr oedran chweched dosbarth. Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 16 yn disodli'r gofyniad a ddiddymwyd ac yn cysoni'r gofynion i gyhoeddi gwybodaeth ar gyfer dysgwyr o oedran chweched dosbarth â'r hyn y mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 eisoes yn ei wneud yn ofynnol ar gyfer plant ysgol. Bydd hyn yn creu set unedig o ofynion.

**Adran 17 – Cydweithredu: gwybodaeth a chymorth arall**

54. O dan is-adran (1) mae ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdod lleol. Rhaid iddo roi i'r awdurdod wybodaeth neu gymorth arall y mae ei hangen neu ei angen er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi i'w gilydd wybodaeth neu gymorth y gallai fod yn rhesymol fod arnynt ei hangen neu ei angen er mwyn iddynt wneud asesiadau a threfniadau teithio. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cyflawni swyddogaethau'n effeithiol pan fydd dysgwyr yn teithio rhwng awdurdodau neu pan fydd plentyn yn byw mewn dau awdurdod gwahanol.

55. O dan is-adran (3) a (4) rhaid i awdurdodau lleol a phenaethiaid gynorthwyo'i gilydd mewn perthynas â gorfodi'r cod ymddygiad wrth deithio.

**Adran 18 – Talu costau teithio gan awdurdod lleol y mae plentyn yn derbyn gofal ganddo**

56. Mae'r adran hon yn ymwneud ag amgylchiadau pan fo un awdurdod lleol yn gwneud trefniadau teithio ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod gwahanol (yr awdurdod cyfrifol y mae arno gyfrifoldeb corfforaethol am y plentyn) yng Nghymru. Mae'n darparu'r pŵer i'r awdurdod lleol sy'n gwneud y trefniadau teithio alw am i'r awdurdod cyfrifol y mae'r plentyn yn derbyn gofal ganddo ad-dalu costau ac yn mynnu bod yr awdurdod cyfrifol hwn yn cydymffurfio â'r galw am ad-dalu.

**Section 19 – Penderfynu ar breswylfa arferol mewn amgylchiadau penodol**

57. Mae'r adran hon yn nodi'r darpariaethau ar gyfer penderfynu ar breswylfa arferol person mewn amgylchiadau penodol. Os nad oes gan berson breswylfa arferol, mae is-adran (1) yn datgan y dylai'r person gael ei drin at ddibenion y Mesur fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y man lle y mae'n preswylio am y tro.

58. Mae is-adrannau (2) i (6) yn gwneud darpariaeth i blentyn neu berson ifanc a chanddo fwy nag un cartref. Os nad yw rhieni plentyn yn cyd-fyw ond bod y plentyn yn byw gyda'r naill riant a'r llall, neu gyda rhiant ac mewn cartref plant hefyd, yna dylid ystyried bod y ddau fan preswyl yn fan preswyl arferol i'r plentyn at ddibenion y Mesur. Os oes mwy na dau o'r cyfryw fannau yna mae is-adran (6) yn datgan mai dim ond y ddau fan agosaf at yr ysgol neu'r sefydliad addysg fydd yn cyfrif.

59. Mae is-adran (7) (b) yn ei gwneud hi'n glir mai ystyr "rhiant" yw rhiant o fewn ystyr adran 576(1) o Ddeddf Addysg 1996 sy'n unigolyn. Mae'r adran honno yn diffinio rhiant mewn modd sy'n cynnwys unrhyw unigolyn nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc. Gall y diffiniad hwn felly gynnwys neiniau a theidiau, perthnasau eraill neu ofalwyr maeth.

**Adran 20 – Diwygiadau i Ddeddf Addysg 1996**

60. Mae adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 yn creu'r tramgwydd ar ran rhiant o fethu â sicrhau bod disgybl cofrestredig yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae adran 20 yn diwygio adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 drwy roi, yn lle'r hen un, is-adran (4) newydd i gyfeirio at ddyletswyddau awdurdod lleol o dan y Mesur hwn, a thrwy wneud diwygiad canlyniadol i is-adran (5). Bydd gan riant amddiffyniad i erlyniad os bydd awdurdod lleol wedi methu â chyflawni dyletswydd i wneud trefniadau teithio o dan y Mesur hwn.

**Adran 21 – Diwygiadau i Ddeddf Addysg 2002**

61. Mae adran 21 yn gwneud diwygiadau ar gyfer Cymru i adrannau 32 a 210 o Ddeddf Addysg 2002. Mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol benderfynu amserau sesiynau ysgol. Pŵer gwneud rheoliadau yw is-adran (3) o adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 sy'n llywodraethu'r weithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgol ac yng Nghymru gwneir newidiadau o'r fath yn unol â Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000.

62. Mae is-adran (2) yn mewnosod is-adrannau (5) i (10) newydd yn adran 32 o Ddeddf 2002. Pan fydd awdurdod lleol yn fodlon y byddai newid amser sesiynau ysgol yn hybu dulliau teithio cynaliadwy neu'n ychwanegu at effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau teithio, gall newid amserau'r sesiynau. Bydd yn gwneud hynny drwy hysbysu'r corff llywodraethu. Os oes gan ysgol ddwy sesiwn mewn diwrnod, bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu faint o'r gloch y bydd sesiwn y bore'n dechrau a sesiwn y prynhawn yn gorffen. Bydd y corff llywodraethu'n cadw'r pŵer i bennu faint o'r gloch y bydd sesiwn y bore'n gorffen a sesiwn y prynhawn yn dechrau. Ond os un sesiwn yn unig sydd gan ysgol mewn diwrnod, yr awdurdod fydd yn penderfynu faint o'r gloch y bydd

yn dechrau ac yn gorffen. Ceir cyfieithiad o'r mewnosodiad yn yr Atodiad i'r nodiadau esboniadol hyn.

63. Mae pŵer corff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig i bennu dyddiadau tymhorau a gwyliau'n parhau'n ddigyfnewid yn sgil adran 21.

64. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-adran (9) newydd o adran 32 o Ddeddf 2002 ynghylch sut y dylai awdurdod lleol ddyroddi hysbysiad ac ynghylch materion perthynol ynglŷn â chynnwys hysbysiad. O dan is-adran (10) newydd o adran 32 bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru pan fydd yn defnyddio'r pŵer newydd hwn.

65. Mae adran 210 o Ddeddf 2002 yn rhagnodi sut y mae gorchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf 2002 i'w gwneud. Effaith y diwygiad a wneir gan adran 18(3) fydd gwneud y pŵer gwneud gorchmynion a fewnosodir yn adran 32(8) yn arferadwy drwy offeryn statudol.

66. Mae adran 210(6A) yn rhagnodi bod unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 32(8) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae adran 210(6B) yn amlygu beth fydd effaith Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Adran 22 – Diwygiadau i adrannau 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996**

67. Mae adran 22 yn gwneud diwygiadau i adrannau 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996. Mae adran 455 yn caniatáu codi tâl ac mae adran 456 yn ymwneud â'r rheoliad am daliadau a ganiateir. Mae'r diwygiadau a wneir gan adran 22 yn cymryd i ystyriaeth y pŵer a roddir gan adran 6 o'r Mesur i awdurdod lleol godi tâl am drefniadau teithio. Mae codi tâl am y trefniadau teithio hynny mewn cysylltiad â phlant o oedran ysgol gorfodol yn ddarostyngedig i'r rheolau yn Neddf 1996. Mae'r rhain yn cynnwys darparu i riant plentyn dalu taliadau a ganiateir ac i awdurdodau benderfynu polisi codi tâl a pheidio â chodi tâl. Mae'r diwygiad a wneir gan is-adran (3) yn caniatáu i dâl a godir am drefniadau teithio a ddarperir yn unol ag adran 5 fod yn fwy na chost darparu'r trefniadau.

**Adran 23 – Diwygio Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006**

68. Mae adran 23 yn gwneud diwygiadau i adrannau 162 a 181 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ac yn mewnosod adran 182A newydd yn y Ddeddf honno. Mae adran 162 yn rhagnodi'r pŵer i ddiddymu cyfeiriadau at awdurdod addysg lleol mewn Deddfau ac mewn offerynnau statudol. Bydd y diwygiad a wneir gan adran 23 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio cyfeiriadau at awdurdod addysg lleol mewn Mesurau.

69. Mae adran 181 o Ddeddf 2006 yn rhagnodi sut y mae gorchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf 2006 i gael eu gwneud. Effaith y diwygiad a wneir o dan adran 23 o'r Mesur fydd gwneud y pŵer gwneud gorchmynion a fewnosodir yn adran 162 o Ddeddf 2006 yn arferadwy drwy offeryn statudol.

70. Mae adran 182A(1) newydd o Ddeddf 2006 yn rhagnodi bod yn rhaid i unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 162(5A) o Ddeddf 2006 gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad (y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol). Mae adran 182A(2) newydd o Ddeddf 2006 yn amlygu beth yw effaith Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Adran 24 – Dehongli cyffredinol**

71. Mae is-adran (1) yn diffinio terminoleg a ddefnyddir yn y Mesur.

72. Mae is-adran (2) yn diffinio plentyn sy'n 'derbyn gofal', at ddibenion y Mesur, fel pe bai iddo'r un ystyr ag sydd i 'looked after' child yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989, sef plentyn sydd yng ngofal awdurdod lleol (yr awdurdod cyfrifol) neu y darperir llety iddo gan awdurdod lleol tra bo'r awdurdod yn arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf honno.

73. Mae is-adran (3) yn darparu bod y Mesur i'w ddarllen fel pe bai'r Mesur a Deddf Addysg 1996 yn un endid. Golyga hyn fod y diffiniadau yn y Ddeddf honno i'w trosglwyddo wrth eu darllen i'r Mesur hwn, ac mae'r darpariaethau cyffredinol yn y Ddeddf honno'n gymwys i'r Mesur. Er enghraifft bydd pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo o dan adrannau 496, 497 a 497A o Ddeddf 1996 yn gymwys mewn perthynas â swyddogaethau a roddir i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gan y Mesur. Mae'r diffiniadau a geir yn is-adran (1) yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddiffiniadau a ddefnyddir yn Neddf Addysg 1996 os bydd yr ystyr yn wahanol (is-adran (4)).

**Adran 25 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

74. Mae adran 25 yn rhoi effaith i Atodlen 1 sy'n cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

**Adran 26 – Diddymiadau**

75. Mae adran 26 yn rhoi effaith i Atodlen 2 sy'n cynnwys diddymiadau i ddeddfiadau eraill fel a bennir.

**Adran 27 – Gorchmynion a rheoliadau**

76. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag unrhyw orchmynion neu reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud darpariaethau gwahanol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol, gwneud darpariaethau ar gyfer achosion penodol neu eu gwneud yn fwy cyffredinol a gwneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, trosiannol neu arbed.

77. Mae adran 27 hefyd yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud, drwy reoliadau, ddarpariaeth ganlyniadol ac i ddiwygio neu i ddiddymu darpariaethau Mesurau Cynulliad, Deddfau neu is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn y Mesur. Pwrpas is-adran (3) yw caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau sydd

yn eu barn hwy yn angenrheidiol i roi effaith i reoliadau a wneir o dan adrannau 3(9), 7 neu 8 o'r Mesur. Rheoliadau yw'r rhain ynghylch y gofynion sydd ar awdurdodau lleol i drefnu cludiant ar gyfer plant ysgol ac ynghylch trefniadau teithio i ddysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 ac i blant mewn addysg feithrin.

78. Mae is-adrannau (5) i (7) yn nodi'r gweithdrefnau a fydd yn gymwys i unrhyw offeryn statudol a wneir o dan adrannau gwahanol o'r Mesur. Bydd yn rhaid i reoliadau sy'n cynnwys darpariaethau a restrir yn is-adran (7) gael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a'u cymeradwyo ganddo drwy benderfyniad (y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol). Rheoliadau yw'r rhain sy'n diwygio amgylchiadau dysgwyr y mae ganddynt hawl i gludiant o dan adran 3, rheoliadau ynghylch cludiant i ddysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 o dan adran 7, rheoliadau ynghylch trefniadau teithio i blant mewn addysg feithrin o dan adran 8, ac unrhyw reoliadau sy'n diwygio Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad (pŵer Harri'r VIII). Mae is-adran (5) yn darparu bod y weithdrefn penderfyniad negyddol i fod yn gymwys i unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan y Mesur.

**Adran 28 – Cychwyn**

79. Daw darpariaethau'r Mesur i rym yn unol â gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae is-adran (1) yn gwneud eithriadau i adrannau 27 a 29 a fydd yn dod i rym yn awtomatig ddeufis ar ôl cymeradwyo'r Mesur gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor.

**Adran 29 – Teitl byr**

80. Mae'r adran hon yn cadarnhau mai Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yw enw'r Mesur.

**Atodlen 1**

81. Cyflwynir Atodlen 1 gan adran 25. Mae'r Atodlen yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i amryw Ddeddfau Seneddol.

**Atodlen 2**

82. Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 26. Mae'r Atodlen yn rhestru diddymiadau o amryw o ddarpariaethau Deddfau Seneddol.

**Atodiad**

**Mewnosodiad yn adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 a wneir gan adran 21(2) o'r Mesur - cyfieithiad cwrteisi**

"(5) Nid yw is-adrannau (1)(b) a (2)(b) yn gymwys mewn perthynas ag ysgol yng Nghymru yn yr amgylchiadau a bennir yn is-adran (6).

(6) Yr amgylchiadau yw—

(a) bod yr awdurdod addysg lleol dros yr ardal lle y mae'r ysgol wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i gorff llywodraethu'r ysgol bod amserau'r sesiynau ysgol i'w penderfynu yn unol ag is-adran (8), a

(b) nad yw'r hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl gan yr awdurdod addysg lleol.

(7) Rhaid i awdurdod addysg lleol beidio â dyroddi hysbysiad o'r math a ddisgrifir yn is-adran (6)(a) onid yw'n ystyried bod angen newid amserau sesiynau'r ysgol honno neu y byddai eu newid yn gyfleus er mwyn—

(a) hybu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy o fewn ystyr adran 11 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, neu

(b) ychwanegu at effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd trefniadau teithio a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan yr awdurdod o dan y Mesur hwnnw.

(8) Mewn perthynas ag ysgol sy'n ddarostyngedig i hysbysiad o'r math a grybwyllir yn is-adran (6)(a)—

(a) os oes dwy sesiwn ysgol ar y diwrnod ysgol perthnasol—

(i) rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu am faint o'r gloch bob dydd y bydd y sesiwn ysgol gyntaf yn dechrau a'r ail sesiwn ysgol yn gorffen, a

(ii) rhaid i'r corff llywodraethu benderfynu am faint o'r gloch bob dydd y bydd y sesiwn ysgol gyntaf yn gorffen a'r ail sesiwn ysgol yn dechrau;

(b) os un sesiwn ysgol sydd ar y diwrnod ysgol perthnasol rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu am faint o'r gloch bob dydd y bydd y sesiwn ysgol yn dechrau ac yn gorffen.

(9) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau—

(a) o ran y weithdrefn sydd i'w dilyn os yw'r awdurdod addysg lleol yn cynnig dyroddi hysbysiad o'r math a grybwyllir yn is-adran (6)(a);

(b) o ran y materion i'w cynnwys yn y cyfryw hysbysiad;

(c) o ran gweithredu unrhyw benderfyniad o dan is-adran (8);

(d) i alluogi'r awdurdod addysg lleol i benderfynu, at unrhyw un neu rai o ddibenion y rheoliadau, a yw unrhyw berson i'w drin fel rhiant i ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.

(10) Wrth roi hysbysiad fel a ddisgrifir yn is-adran (6) ac wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth a roddir gan is-adrannau (7) neu (8) neu gan reoliadau o dan is-adran (9), rhaid i awdurdod addysg lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru."